

Cari Curiad



Addasiad o lyfr 'Cynorthwyo Plant
Ifanc i Gadw Curiad Cyson'

Pam cynnal sesiwn Cari Curiad?

- Mae'r gallu i gadw curiad yn hanfodol er mwyn cyflawni tasg e.e. dawnsio, cerdded, ysgrifennu, torri gyda siswrn neu dynnu llun.
- Mae rhythm yn cefnogi plant sydd ag anhawster â'r mân sgiliau symudol.
- Dangosir bod cydberthynas rhwng y gallu i gadw curiad yn gywir â llwyddiant yn yr ysgol.
- Datblygir gallu plentyn wrth gynnig cyfleoedd i ganu, dawnsio, rapio, arbrofi gydag offerynnau cerdd, ac adrodd rhigymau a hwiangerddi.



Cyflwyno Cari Curiad

- Mae'r plant fel arfer yn eistedd mewn cylch
- Gellir creu cartref â blanced i Cari
- Rhaid creu awyrgylch a chyffro!
- Dylid egluro ymweliad eich ffrind bach newydd
- Rhaid rhoi enw iddi ac egluro ei bod yn swil iawn
- Rhaid bod yn dawel rhag ofn dychryn Cari Curiad
- Dylid sefydlu curiad drwy clapio neu taro'ch pengliniau gyda'ch llaw
- Cychwynwch rhigwm cyflwyno Cari cyn iddi dadgyrlio
- Mae'n bosib cysylltu Cari gyda pha beth bynnag â ddewiswch. Gall plant ofalu amdani.
- Ar ddiwedd pob sesiwn gorffennwch gyda'r rhigwm sy'n cloi'r sesiwn a rhowch Cari Curiad yn ôl yn ei bocs/basged

Why ?

- The ability to maintain a steady beat is necessary to successfully perform tasks e.g. dancing, walking, writing, cutting with scissors or drawing.
- Rhythm supports children that have difficulties with fine motor skills.
- Studies show that there are strong links between beat competency and school achievement.
- The more opportunities for singing, dancing, rapping, experimenting with musical instruments and reciting nursery rhymes, the greater their ability will be.



Introducing Cari Curiad

- It is best to sit the children in a circle
- Build / create a home with a blanket / material
- Create an atmosphere of magic and suspense!
- Explain the visit of your new little friend
- Give her a name and explain that she is very shy
- Explain that they need to be quiet so as not to frighten her
- Begin by establishing a beat by tapping your knees or tapping your hands
- Start the introductory rhyme before she opens up
- It is possible to involve Cari in whatever way you choose.
- The children can look after her
- At the end of each session finish with the closing rhyme and replace Cari in her special place.

Rhigwm agoriadol

**Cari Curiad,
Cari Curiad**



Rhaid sefydlu
curiad cyn
siantio
*Establish the beat
before you
begin*

Arweinydd a'r plant yn siantio'r pennill drwy sibrwd ac yna yn cynyddu cryfder y llais.

Leader and children chant, starting with a whisper and getting gradually louder and louder



**Cari Curiad, Cari Curiad ffrind bach ni
Cari Curiad, Cari Curiad ble 'rwyd ti?
Cari Curiad, Cari Curiad ffrind bach ni,
Cari Curiad, Cari Curiad "dyma fi!"**

Ar ôl siantio'r pennill bydd yr arweinydd angen dad-gyrllo Cari ar y geiriau, "dyma fi". Bydd cyfle i bawb ei thrafod.

After chanting the leader uncurls Cari on the words, "dyma fi". Pass her around so she can meet everybody.



Dewch i ddweud helo wrth Cari Curiad

Pasio Cari o amgylch y cylch wrth siantio'r pennill isod.

Pass Cari around the circle to the following chant.



**Caru Curiad, Cari Curiad, cer am dro.
Cer am dro a d'wed "Helo!"**

Pwy ydw i?



**Rhaid sefydlu
curiad cyn siantio**
*Establish the beat
before you
begin*

Ar ôl y rhigwm agoriadol gall y plant gael cyfle i edrych arni'n fwy manwl, ei chyffwrdd a sgwrsio gyda hi. Gellir ei phasio o gwmpas gan siantio.
After the introductory rhyme the children can get further opportunity to meet, feel and chat to Cari. Pass her around the circle and chant.



Cari Curiad, Cari Curiad....

Ble bynnag fyddai Cari yn stopio gall plentyn ddweud rhywbeth wrthi e.e.
Wherever Cari stops the child can say something to her e.g.

Helo Cari, Daniel ydw i.



Neu gall y testun fod yn trafod y tywydd, thema'r plant, mynegi barn.
Or the subject could be the weather, children's theme or an opinion.

Helo Cari, bore da.

**Bore da Cari,
rydw i yn hoffi mefus.**



**Helo Cari,
mae'n bwrw glaw
heddi.**

Bore da, rydw i yn mynd i weld Jac heddi.

Beth sydd yn y bocs?

Bydd angen gosod bocs / blwch teimlo yng nghanol y cylch. Ynddo gellir cynnwys eitemau naturiol pwrpasol e.e. deilen, mochyn coed, brigyn a charreg.

Annogwch y plant i glapio'r rhythm.

Put a box / feely box in the middle of the circle. It is possible to include natural items e.g. leaf, fir cone, twig and stone. Encourage the children to clap the rhythm.

Rhaid sefydlu curiad cyn siantio
Establish the beat before you begin



Beth sydd yn y bocs ?

Beth sydd yn y bocs ?

Mae Cari Curiad eisiau gwybod,

Beth sydd yn y bocs ?



Gellir siantio'r rhigwm ac enwi plentyn gwahanol bob tro. Mae'r plentyn hwnnw yn dewis eitem o'r bocs a'i roi i Cari.
Chant the verse and name a different child each time. That child then picks an item from the box and gives it to Cari.



Beth sydd yn y bocs ?

Beth sydd yn y bocs ?

Tybed Beca wyt ti'n gwybod,

Beth sydd yn y bocs ?




O ble mae hwn wedi dod?



Pam mae Cari'n hoffi hwn?

Hwyl wrth Gadw Curiad

Rhaid sefydlu
curiad cyn
siantio
*Establish the beat
before you
begin*



Cari Curiad, Cari Curiad, clap, clap, clap.
(Clapio/ *Clap*)

Cari Curiad, Cari Curiad, tap, tap, tap.
(Tapio coesau / *Tap legs*)



Cari Curiad, Cari Curiad, stamp, stamp, stamp.
(Stampio'r llawr/ *Stamp the floor*)

Cari Curiad, Cari Curiad, tap, tap, tap.
(Tapio coesau / *Tap legs*)



Cari Curiad, Cari Curiad, mynd i lawr.
(Plygu i lawr / *Bend down*)
Cari Curiad, Cari Curiad, cysgu'n nawr.
(Pen ar y ddwy law / *Hands on head*)



Dinosor, Dinosor!

Rhaid sefydlu
curiad cyn siantio
*Establish the beat
before you
begin*

Mae'n bosib newid enwau'r anifeiliaid i greu diddordeb ac mae
angen bod yn fywiog ac yn barod i symud ar y synau
W! A! W! A!


*To maintain their interest it is possible to change the animal names. It is
important to be exciting and ready to move on the sounds W! A! W! A!*



Dinosor, dinosor W! A! W! A!
Dinosor, dinosor, dinosor mawr.
Dinosor, dinosor W! A! W! A!
Dinosor, dinosor yn cerdded ar y llawr.



Eliffant, eliffant W! A! W! A!
Eliffant, eliffant, eliffantod mawr.
Eliffant, eliffant W! A! W! A!
Eliffant, eliffant, eliffantod mawr.



Llewod, llewod W! A! W! A!
Llewod, llewod, llewod mawr.
Llewod, llewod W! A! W! A!,
Llewod, llewod, llewod mawr.



Teganau'n mynd am dro

Rhaid sefydlu
curiad cyn siantio
*Establish the beat
before you begin*

Adnoddau: casgliad o deganau meddal mewn basged / bocs.
Dewis tegan gwahanol i gael amrywiaeth o benillion, e.e. "Mae eliffant yn mynd am dro". Pasiwch y tegan o amgylch y cylch.

Resources: a collection of soft toys in a basket / box. Choose a different toy to create a different verse e.g. "Mae eliffant yn mynd am dro". Pass the toy around the circle.



**Mae Tedi bach yn mynd am dro,
Mynd am dro, mynd am dro,
Mae Tedi bach yn mynd am dro
Edrychwch ble mae o!**

Ar ddiwedd y pennill bydd y plentyn yn ei ddal yn llonydd am ychydig o funudau tra mae'r oedolyn yn trafod.....

At the end of the verse the child will hold the toy while the adult can ask / discuss....


Ble mae Tedi?

Pwy sy'n dal Tedi?

Beth mae Tedi'n hoffi gwneud?

Gall oedolyn roi cyfarwyddiadau, e.e. Rho Tedi yn y bocs / tu ôl i ti, rho het ar ben Tedi a.y.y.b.

The adult can give instructions e.g. Put Tedi in the box / behind you, put a hat on Teddy e.t.c.



Reid ar y Trên

Rhaid sefydlu
curiad cyn siantio
*Establish the beat
before you
begin*

Wrth siantio'r rhigwm rhaid cadw'r curiad gyda'r traed a'r breichiau fel pataech ar drên. Mae'r plant yn ymuno fesul un a phan fydd pawb arno mae'r trên yn symud o gwmpas gan ddal i gadw'r curiad.
When chanting this rhyme they can mimic a train by moving arms and legs. They can come on the train one by one and when everyone has boarded it can move around whilst keeping the rhythm.



Dyma ni'n mynd i'r sŵ ar y trên,
Sŵ ar y trên, sŵ y trên,
Dyma ni'n mynd i'r sŵ ar y trên,
Cliciti-clac dewch arno!

Dyma ni'n mynd i'r dre ar y trên,
Dre ar y trên, dre y trên,
Dyma ni'n mynd i'r dre ar y trên,
Cliciti-clac dewch arno!



Dyma ni gyd yn mynd ar y trên,
Mynd ar y trên, mynd ar y trên,
Dyma ni gyd yn mynd ar y trên,
Cliciti-clac dewch arno!



Rhigwm i Gloi

Amser Cysgu

Rhaid sefydlu
curiad cyn siantio
*Establish the beat
before you
begin*

Mae pawb yn eistedd mewn cylch ac yn pasio Cari Curiad o gwmpas i guriad cyson y pennill. Dylid tawelu'r llais nes sibwrdd y geiriau, 'Cysgu nawr, cysgu nawr...'

Everyone sits in a circle, passing Cari around to the steady beat. Lowering the voice until they whisper the chant, 'Cysgu nawr, cysgu nawr...'



**Cari Curiad, Cari Curiad ffrind bach ni.
Cari Curiad, Cari Curiad ffrind bach ni.**

Mae pawb yn aros yn dawel ac yn gwylio'r oedolyn yn lapio Cari yn ôl yn belen fach gron. Rhaid ei phasio'n ofalus a thyner o amgylch eto wrth i bawb siantio'r pennill isod.

Everyone remains quiet watching the adult wrap Cari back into a ball. Pass her around carefully whilst chanting the verse below.

**Cari Curiad, Cari Curiad cysga nawr,
Cari Curiad, Cari Curiad dwêd hwyl fawr!**

Y nôd yw i'r sesiwn orffen yn dawel.
The aim is to end the session quietly.



